WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith – **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**


Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1610A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a datblygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio mewn busnes craidd a threfniadau rheoli perfformiad.


Adroddiad cryno

Cefndir 5

Ffocws y gwaith 5

Prif ganfyddiadau 7

Cyfleoedd ar gyfer gweithredu 7

Adroddiad manwl

**Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol** 10

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu mewn busnes craidd a threfniadau rheoli perfformiad 10

**Rhan 2 – Archwiliad o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi dylunio model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC)** 12

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a datblygu model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC, ond mae cyfleoedd i gryfhau ei dull ymhellach 12

Mae gan fodel gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC ffocws ataliol clir, ond mae cyfleoedd i addysgu cleifion a'r gymuned ehangach ynghylch ffyrdd iach o fyw i helpu i atal canser 13

Mae gan fodel gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC ffocws hirdymor cryf yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am anghenion yn awr ac yn y dyfodol 14

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn ffordd integredig i ddylunio a datblygu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol ac mae wedi ystyried sut y gall ddwyn manteision ehangach 16

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio'n dda gyda sefydliadau partner ledled De Ddwyrain Cymru i ddatblygu a gwella gwasanaethau canser 17

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys ystod o randdeiliaid yn y broses o ddylunio a datblygu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol, ond dylai sicrhau y darperir adborth rheolaidd ar y cynnydd 18

Atodiadau

Atodiad 1 – Y Cam: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth: Dyluniad model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser 20

Atodiad 2 – Y pum ffordd o weithio 23

Atodiad 3 – Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth 25

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad rhagarweiniol, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Yn ystod 2018 a 2019 mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Wrth ddatblygu'r dull o gynnal yr archwiliadau fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a gwneud gwaith peilot yn ystod 2017-18. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaed gennym yn 2017 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Prif ffocws ein gwaith yn 2019 yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Fe gynhaliom ni ein hadolygiad yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

## Ffocws y gwaith

8 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn:

- cymhwyso'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio i wneud pethau'n wahanol;
- gwreiddio'r egwyddor DC mewn trefniadau a phrosesau craidd; a
- chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i gyflawni ddyletswydd llesiant.

9 Fe gynhalion ni adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei threfniadau corfforaethol ers ein gwaith sylfaenol yn 2017 i oleuo sylwebaeth yr Archwilydd Cyffredinol ar flwyddyn un yn 2018. Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu yn unol â'r egwyddor DC ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio trwy gam i gyflawni amcan llesiant. Yn benodol, fe wnaethom adolygu sut y cafodd yr egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio'u rhoi ar waith wrth ddylunio model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC a nodir ym mhrosiectau'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC) a seilwaith ategol (a ddisgrifir yn Atodiad 1). Ni ddylid ystyried bod ein gwaith yn gyfystyr ag adolygiad o'r Rhaglen TGC na'i threfniadau rheoli. Wrth adolygu'r ffordd yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio gydag eraill, dim ond y modd y bu'n cydweithio gyda phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid i ddylunio model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC y gwnaethom ei ystyried. Ni wnaethom ystyried cyfathrebu ehangach gyda Llywodraeth Cymru.

10 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion**. Mae Atodiad 2 yn nodi dangosyddion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'n harchwiliad.

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| • **Hirdymor** – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.<br>• **Atal** – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.<br>• **Integreiddio** – Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>• **Cydweithio** – Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.<br>• **Cynnwys** – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

11 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau am ddull corfforaethol yr Ymddiriedolaeth o wreiddio'r egwyddor DC a sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso trwy ei gwaith ar 'fodel gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC' (y cam).

# Prif ganfyddiadau

12 Canfu ein harchwiliad fod yr **Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a datblygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio mewn busnes craidd a threfniadau rheoli perfformiad**.

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i wreiddio'r egwyddor DC, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu mewn busnes craidd a threfniadau rheoli perfformiad; ac
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor DC wrth ddylunio a datblygu model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC, ond mae cyfleoedd i gryfhau ei dull ymhellach.

14 Trafodir ein canfyddiadau mewn mwy o fanylder yn Rhannau 1 a 2 o'r adroddiad hwn.

# Cyfleoedd ar gyfer gweithredu

15 Gan bod prif ddarpariaeth y Ddeddf wedi dod i rym yn 2016, mae'n anorfod y bydd ar gyrff cyhoeddus angen amser i roi'r newid hwnnw ar waith yn llawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pontio a bod yr holl gyrff cyhoeddus ar lwybr dysgu. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ddatblygu'r Rhaglen TGC.

16 Fe gyflwynon ni ein canfyddiadau mewn gweithdy o gynrychiolwyr allweddol sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Rhaglen TGC ym mis Hydref 2019. Yn y gweithdy hwn, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ystyried ein canfyddiadau, adnabod cyfleoedd ar gyfer gweithredu a dechrau ystyried ei ymateb.

17 Mae Arddangosyn 2 yn nodi cyfleoedd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweithredu pellach, sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i barhau i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion DC a'r pum ffordd o weithio.

Arddangosyn 2: Cyfleoedd ar gyfer gweithredu pellach

| Cyfleoedd ar gyfer gweithredu pellach | |
|---|---|
| **Trefniadau Corfforaethol** | |
| G1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy adolygu ei hamcanion llesiant presennol ac archwilio cyfleoedd i'w cysoni'n well ag amcanion strategol i gynyddu eu blaenoriaeth a'u ffocws i'r eithaf. |
| G2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy ddisgrifio'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant a chyflwyno mecanwaith effeithiol i fonitro perfformiad ac adrodd ar gynnydd tuag at eu cyflawni. |

| Cyfleoedd ar gyfer gweithredu pellach | |
|---|---|
| G3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy sicrhau ffocws gwell a pherchnogaeth well ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor DC ar lefelau is-adrannol drwy'r sefydliad. |
| **Atal** | |
| G4 | **Gwella deilliannau ar gyfer cleifion** – Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gallai gyfrannu'n fwy at hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac addysgu'r cleifion y mae'n eu gweld i helpu i atal canser rhag dychwelyd. |
| G5 | **Addysgu'r boblogaeth a wasanaethir gan Ganolfan Ganser Felindre (CGF)** – Er nad yw'n swyddogaeth statudol, gallai'r Ymddiriedolaeth fod â rôl allweddol o ran addysgu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i helpu i atal canser (neu addysgu darparwyr iechyd eraill i wneud hynny). |
| **Hirdymor** | |
| G6 | **Capasiti i gyflawni** – Sefydliad bach yw'r Ymddiriedolaeth, ac felly mae cymhlethdod y rhaglen wedi rhoi pwysau ar gapasiti a gallu staff i gyflawni'r Rhaglen TGC. Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd ati'n rheolaidd i adolygu cyfansoddiad tîm cyflawni'r Rhaglen TGC i sicrhau bod y cymysgedd o sgiliau a'r capasiti'n briodol. |
| **Integreiddio** | |
| G7 | **Manteision ehangach** – Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall y Rhaglen TGC barhau i adnabod a dwyn manteision ehangach wrth i'r rhaglen symud ymlaen i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. |
| **Cydweithio** | |
| G8 | **Gwell cydweithio gyda gofal sylfaenol** – Mae rhai cleifion sy'n gadael gofal CGF wedi mynegi'r dyhead i gael cymorth parhaus yn eu cymunedau lleol. Gallai'r Ymddiriedolaeth archwilio cyfleoedd i ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, i'w helpu i roi cymorth a chyngor i gleifion ar ôl triniaeth gan CGF. |
| **Cynnwys** | |
| G9 | **Cyfathrebu** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai fod wedi rhoi adborth mwy rheolaidd i'r bobl a'r grwpiau yr oedd yn ymgysylltu â hwy, yn enwedig i gadarnhau pan nad oedd unrhyw beth newydd i'w nodi ers cyfathrebiadau blaenorol. Wrth edrych tua'r dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gyfer yr holl randdeiliaid. |
| G10 | **Cynnwys yn y gymuned leol** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai cymunedau lleol chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio ysbyty newydd CGF fel ased cymunedol. Ar adeg briodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol a allai ddefnyddio'r cyfleuster i bennu'r ffyrdd gorau o ddefnyddio ysbyty CGF er budd cleifion, staff a'r gymuned leol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau sy'n helpu i wella llesiant. |

18 Darperir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn Atodiad 3.

# Adroddiad manwl

## Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu mewn busnes craidd a threfniadau rheoli perfformiad

19 Cyn archwilio gwaith mewn perthynas â model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC, roedd arnom eisiau deall sut y mae trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r broses o gyflawni'r gwaith hwnnw.

20 Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei set gyntaf o amcanion llesiant yn 2017. Canfu ein hadolygiad ni o amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth eu bod yn gyson iawn â'r nodau llesiant cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes rhyw lawer o gysondeb rhwng amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth a'i hamcanion strategol ac nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei hamcanion llesiant.

21 Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth ymarfer i hunanfyfyrio ynghylch y cynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gynnar yn 2019. Yn y ddogfen a gyflwynwyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod llai o sylw wedi cael ei roi i rai amcanion llesiant y byddid wedi ystyried yn hanesyddol eu bod y tu hwnt i gylch gorchwyl y sefydliad.

22 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wneud gwaith pellach i sicrhau bod y Ddeddf yn tanategu datblygiad gwasanaethau a nodir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym y bydd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, trwy ddatblygu Fframwaith Cynllunio Strategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a strategaethau ategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain wedi'u rhaglenni fel y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod 2020. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu ei hamcanion llesiant presennol a'u cysoni'n well â'i hamcanion strategol.

23 Yn arbennig, roedd arnom eisiau deall pa un a yw'r Ymddiriedolaeth yn ymateb i'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio trwy:

- wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid;
- datblygu trefniadau a phrosesau craidd; a
- chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.

24 Caiff ein canfyddiadau eu nodi yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: gwreiddio'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio

| Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid |
| --- |
| **Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i gymhwyso'r egwyddor DC ond yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud i adnabod cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol**<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ffurfio Grŵp Strategaeth, Cynllunio a Rheoli Perfformiad a Grŵp Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Swyddogaethau'r grwpiau yw monitro cyfraniad a chynnydd yr Ymddiriedolaeth tuag at gymhwyso'r egwyddor DC, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei threfniadau llywodraethu a rheoli ochr yn ochr â datblygu fframwaith strategol yr Ymddiriedolaeth.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried yr egwyddor DC wrth ddatblygu ei phrif raglenni strategol, yn CGF, y rhaglen TGC ac yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru (GGC), y Cynllun Iechyd Gwaed Cenedlaethol a Chadwyn Cyflenwi Gwaed 2020.<br>• Mae GGC yn amcanu at ymgorffori'r egwyddor DC yng ngham nesaf rhaglen Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 a newidiadau i wasanaethau o ganlyniad.<br>• Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn ystyried sut y gall fanteisio ar bartneriaethau presennol i raddau mwy helaeth, a datblygu perthnasoedd newydd yn y sector iechyd a'r tu hwnt, i gynyddu i'r eithaf ei chyfraniad at Cymru Iachach[1] ac i gynorthwyo eraill i wneud yr un modd. |
| **Datblygu trefniadau a phrosesau craidd** |
| **Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i wreiddio'r egwyddor DC drwy ei busnes craidd i gyd ond gallai wneud mwy i integreiddio'r egwyddor DC mewn trefniadau rheoli perfformiad**<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Strategaeth DC ac yn bwriadu ei defnyddio i wreiddio'r egwyddor DC.<br>• Mae cyfrifoldeb am gyflawni'r Ddeddf a gwreiddio'r egwyddor DC yn eistedd o fewn yr Is-adran Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol, ond dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym mai cyfyngedig yw'r capasiti o fewn y tîm ar hyn o bryd i ateb gofynion y Ddeddf.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i uno'i amcanion llesiant a'i amcanion strategol neu eu cysoni'n well.<br>• Bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu fframwaith cynllunio strategol yn 2020, gan amcanu at sicrhau bod y Ddeddf wir yn tanategu'r holl waith datblygu gwasanaethau a Chynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr holl weithgarwch cynllunio drwy'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r fframwaith hwn er mwyn sicrhau bod yr egwyddor DC yn cael ei gwreiddio'n llawn ar draws y sefydliad. Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw y bydd yr holl gynigion buddsoddi'n dangos sut y maent yn gyson â'r Ddeddf. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i greu dull mwy systematig o dracio a monitro cynnydd. Ar hyn o bryd, nid yw 'cynnydd' penodol yn erbyn yr amcanion llesiant a'r pum ffordd o weithio yn ddatganedig yn fframwaith rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth ac nid yw'r adroddiad blynyddol i adrodd ar gynnydd yn erbyn y Ddeddf yn addas i'w ddiben.<br>• Cyfeirir at yr egwyddor DC yn Amodau Gorchwyl Bwrdd a phwyllgorau ategol yr Ymddiriedolaeth. |

[1] Cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

| Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid |
| --- |
| **Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n rhagweithiol â dinasyddion a rhanddeiliaid wrth ddatblygu gwasanaethau**<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n frwd yn adnabod ffyrdd o wella'r modd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion, rhanddeiliaid, cleifion a rhoddwyr wrth ddatblygu ei gwasanaethau. Er enghraifft, defnyddir arolygon rhoddwyr i gefnogi gwaith cynllunio clinigau ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Strategaeth Iechyd Rhoddwyr, ac mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Cleifion wedi cynorthwyo i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu'r Rhaglen TGC.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod ymgysylltu â chleifion a rhoddwyr yn un o'i chryfderau wrth gyflawni'r egwyddor DC.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio posibiliadau ar gyfer cydweithio gyda byrddau iechyd eraill i ddatblygu agenda hybu iechyd y cyhoedd. |

# Rhan 2 – Archwiliad o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi dylunio model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC)

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio a datblygu model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC, ond mae cyfleoedd i gryfhau ei dull ymhellach

25 Mae'r Ymddiriedolaeth yn trawsnewid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau canser ar gyfer poblogaeth De Ddwyrain Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu model gwasanaethau clinigol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau canser. Model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC yw ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r galw cynyddol am wasanaethau canser anllawfeddygol a chymhlethdod y gwasanaethau hynny. Mae nodau allweddol model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC yn cynnwys:

- sicrhau mynediad at ofal yn newis leoliad y claf, naill ai gartref neu yn y gymuned leol (lle y bo'n bosibl); a
- chynorthwyo cleifion i gyrraedd nodau personol yn ystod triniaeth ac wrth fyw gydag effaith canser.

26 Mae'r Rhaglen TGC wedi'i bwriadu i sicrhau gwasanaethau cymunedol lleol wedi'u hintegreiddio'n llawn, gan sicrhau bod cyfran uchel o gleifion yn cael eu triniaeth, eu gofal a'u cymorth mewn cyfleusterau gofal iechyd lleol heb yr angen i fynd i ysbyty newydd CGF. Bydd mwy o ofal yn cael ei roi gartref neu yn y gymuned leol trwy:

- ddefnyddio gofal cartref, teleiechyd a thelefeddygaeth i roi gofal gartref;

- datblygu is-ganolfan radiotherapi newydd yn Ysbyty Nevill Hall mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP Aneurin Bevan); a
- defnyddio gwasanaethau cymunedol lleol a chyfleusterau byrddau iechyd i ddarparu therapïau yn erbyn canser, gwasanaethau ar gyfer cleifion allanol ac ystod o wasanaethau cymorth therapiwtig.

27 Rhaid i'r Rhaglen TGC gyflawni seilwaith allweddol i greu capasiti i ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol a gwella deilliannau ar gyfer cleifion. Mae'r seilwaith gofynnol yn cynnwys:

- datblygu CGF newydd yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd;
- datblygu is-ganolfan radiotherapi newydd yn Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni;
- datblygu canolfannau allgymorth ar y cyd â byrddau iechyd lleol ledled De Ddwyrain Cymru;
- rhoi ystod o wasanaethau digidol ar waith i gysylltu'r gymuned iechyd â defnyddwyr gwasanaethau
- rhoi offer meddygol megis sganwyr MRI a chyflymyddion llinellol ar waith.

28 Ceir rhagor o wybodaeth am y cam yn Atodiad 1.

## Mae gan fodel gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC ffocws ataliol clir, ond mae cyfleoedd i addysgu cleifion a'r gymuned ehangach ynghylch ffyrdd iach o fyw i helpu i atal canser

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

30 Cryfderau:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'i phartneriaid i wella cyfraddau diagnosis cynharach fel bod cleifion yn gallu dechrau eu triniaeth yn gynharach. Bydd hyn o gymorth i wella deilliannau ar gyfer cleifion a chynyddu cyfraddau goroesi.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynyddu ei swyddogaethau ymchwil ac arloesi ac yn gweithio gyda'r byd academaidd a diwydiant i gynnal rhagor o dreialon clinigol ac i adnabod a phrofi technoleg newydd i ddatblygu gwasanaethau a gwella triniaethau. Bydd cael mynediad at y triniaethau mwyaf effeithiol yn helpu i leihau cymhlethdodau, y tebygolrwydd o ganserau eilaidd a'r canlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaeth is-optimaidd a chostau gofal cymdeithasol cysylltiedig.

- Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw y bydd ysbyty newydd CGF yn cefnogi'r arfer clinigol gorau ac yn gwella safonau diogelwch trwy oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig ag ysbyty presennol CGF a fydd, yn y dyfodol agos, yn peidio â bod yn addas ar gyfer rhoi gofal o'r ansawdd gorau.
- Trwy ehangu capasiti gwasanaethau, a rhoi mwy o ofal yn y gymuned, mae'r Ymddiriedolaeth a phartneriaid yn amcanu at leihau anghydraddoldeb mynediad at wasanaethau a gwella profiad cleifion trwy ddarparu dewis ynglŷn â lleoliad gofal (lle y bo'n bosibl).
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd prosesau clinigol gwell yn arwain at ostyngiad yng nghostau gweithgarwch cymaradwy ar gyfer gwasanaethau clinigol a ddarperir gan CGF ar hyn o bryd ac felly'n gwella cynaliadwyedd gwasanaethau.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno proses safonedig ar gyfer caffael eitemau o offer radiotherapi â gwerth cyfalaf uchel, a bydd caffael offer ar y cyd gyda BIP Aneurin Bevan yn cyflawni darbodion maint ac yn atal costau rhag mynd y tu hwnt i gyllidebau cyfalaf cymeradwy.
- Bydd rhoi mwy o ofal gartref ac yn agos at adref yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cleifion a bydd hefyd yn lleihau amser teithio ar gyfer cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio darparu gwahanol opsiynau ar gyfer teithio llesol i ysbyty newydd CGF, gan felly ddwyn budd amgylcheddol (ataliol), a dangos ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth fel darparwr gwasanaethau cynaliadwy.

31 Cyfleoedd ar gyfer gweithredu:

- **Gwella deilliannau ar gyfer cleifion** – Gallai'r Ymddiriedolaeth gyfrannu'n fwy at hybu ffyrdd iach o fyw ac addysgu'r cleifion y mae'n eu gweld i helpu i atal achosion o ganser yn dychwelyd.
- **Addysgu'r boblogaeth a wasanaethir gan Ganolfan Ganser Felindre (CGF)** – Er nad yw'n swyddogaeth statudol, gallai'r Ymddiriedolaeth fod â rôl allweddol o ran addysgu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i helpu i atal canser (neu addysgu darparwyr iechyd eraill i wneud hynny).

## Mae gan fodel gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC ffocws hirdymor cryf yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am anghenion yn awr ac yn y dyfodol

32 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

33 Cryfderau:

- Mae model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC wedi'i dylunio fel ei bod yn dwyn manteision yn y tymor byr, canolig a hir, ac i wireddu gweledigaeth hirdymor ac amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth.
- Y man cychwyn wrth sefydlu'r Rhaglen TGC ac wrth adnabod y gofynion o ran seilwaith ategol oedd gweithio gyda chleifion, eu teuluoedd, y gweithlu a phartneriaid eraill mewn gwasanaethau iechyd a chyhoeddus i ddeall yn well sut orau i ddarparu gwasanaethau clinigol ledled De Ddwyrain Cymru er mwyn cyflawni deilliannau gwell ar gyfer cleifion.
- Mae'r broses o ddatblygu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol wedi ystyried y galw cynyddol am wasanaethau canser anllawfeddygol. Cyflawnwyd hyn trwy gynnal:
  - dadansoddiad soffistigedig o ragfynegi nifer yr achosion o ganser a dadansoddiad o anghenion y boblogaeth; ac
  - ymchwil i ddeall triniaethau posibl yn y dyfodol (gan gydnabod bod triniaethau newydd yn debygol o fod yn fwy cymhleth).
- Mae datblygu'r achos busnes ar gyfer y Rhaglen TGC a'r achos busnes amlinellol ar gyfer ysbyty newydd CGF wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i ddeall y manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r model gwasanaethau clinigol eu dwyn. Defnyddiwyd dull seiliedig-ar-dystiolaeth trylwyr i adnabod, gwerthuso a meintioli manteision y Rhaglen TGC dros gyfnod arfarnu o 60 mlynedd, o 2015-16 ymlaen.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored i ffyrdd newydd o weithio i wella deilliannau ar gyfer cleifion, er enghraifft mae'n defnyddio arbenigedd diwydiant i brofi a threialu technolegau newydd (megis Deallusrwydd Artiffisial).
- Nod y Rhaglen TGC yw sicrhau bod gan CGF fynediad at dechnoleg a thriniaeth arloesol, gan ei galluogi i fod ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i ddenu a chadw gweithlu o safon uchel i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau canser sydd o ansawdd da ac yn gynaliadwy.

34 Cyfle ar gyfer gweithredu:

- **Capasiti i gyflawni** – Sefydliad bach yw'r Ymddiriedolaeth, ac felly mae cymhlethdod y rhaglen wedi rhoi pwysau ar gapasiti a gallu staff i gyflawni'r Rhaglen TGC. Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd ati'n rheolaidd i adolygu cyfansoddiad tîm cyflawni'r Rhaglen TGC i sicrhau bod y cymysgedd o sgiliau a'r capasiti'n briodol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn ffordd integredig i ddylunio a datblygu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol ac mae wedi ystyried sut y gall ddwyn manteision ehangach

35 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach yr Ymddiriedolaeth; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

36 Cryfderau:

- Mae model gwasanaethau clinigol newydd y Rhaglen TGC yn hanfodol er mwyn i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei hamcanion strategol yn y tymor canolig a hir (ar gyfer CGF), ei hamcanion llesiant ac er mwyn rhoi cymorth i gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol.
- Mae staff yr Ymddiriedolaeth sy'n rhan o'r rhaglen yn cydnabod dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n gysylltiedig â chyflawni uchelgeisiau.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i roi cymorth i weithredu'r llwybr canser unigol newydd ar gyfer Cymru a fydd yn lleihau'r amser a gymerir i roi diagnosis canser ac i gleifion ddechrau eu triniaeth.
- Mae model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC yn amcanu at integreiddio gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu meini prawf gwerthuso ar gyfer ysbyty newydd CGF yn seiliedig ar y Ddeddf. Bydd cynigion gan gonsortia i ddylunio, adeiladu a chyllido ysbyty newydd CGF yn cael eu gwerthuso gan ystyried i ba raddau y mae cynigion yn ymateb i'r pum ffordd o weithio a'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw benderfyniadau mawr ynglŷn â buddsoddiadau cyfalaf a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol hefyd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried rhai o'r manteision ehangach y gallai'r Rhaglen TGC eu dwyn, er enghraifft:
  - Mae'r Ymddiriedolaeth yn herio contractwyr i ddatblygu dull cynaliadwy ar gyfer adeiladu a fydd yn cyrraedd safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ac felly'n lleihau effaith amgylcheddol (er enghraifft, trwy gaffael deunyddiau cynaliadwy a chyflwyno targedau gwastraff ar gyfer deunyddiau).
  - Trwy ddylunio ac adeiladu ysbyty newydd CGF, bydd cyfleoedd cyflogaeth amrywiol, yn rhai uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn cael eu creu.

- – Bydd gweithredu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol yn gwella enw da CGF, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ac yn denu'r ymgeiswyr gorau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth GIG Cymru.
- – Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd gwelliannau i driniaeth a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gydag effaith canser yn cynyddu llesiant unigol cleifion, y bydd rhai ohonynt yn dychwelyd i'r gwaith yn gynharach, gan ddwyn manteision economaidd ehangach.

37 Cyfle ar gyfer gweithredu:

- **Manteision ehangach** – Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall y Rhaglen TGC barhau i adnabod a dwyn manteision ehangach wrth i'r rhaglen symud ymlaen i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio'n dda gyda sefydliadau partner ledled De Ddwyrain Cymru i ddatblygu a gwella gwasanaethau canser

38 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

39 Cryfderau:

- Mae Grŵp Arwain Comisiynwyr[2] y Rhaglen TGC sy'n cynnwys byrddau iechyd sy'n comisiynu gwasanaethau canser gan CGF o gymorth i gydweithio mewn perthynas â'r canlynol:
  - – datblygu fframwaith cyffredin ar gyfer darparu gwasanaethau canser i gyflawni deilliannau cyffredin;
  - – cytuno ar gyllid ar gyfer gwasanaethau CGF, ac adnabod a chytuno ble i fuddsoddi mewn datblygiadau mewn gwasanaethau canser; a
  - – thrafod a sicrhau cytundeb ynglŷn â blaenoriaethau a chanlyniadau'r Rhaglen TGC.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi cymorth i ddatblygu'r llwybr canser unigol ar gyfer Cymru gyfan ac mae'n cynorthwyo byrddau iechyd i'w roi ar waith.

[2] Sefydlwyd y Grŵp Arwain Comisiynwyr yn 2018 gan gydnabod yr angen i wella cyfathrebu a chydweithio rhwng y byrddau iechyd sy'n comisiynu gwasanaethau CGF a'r Ymddiriedolaeth wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr ysbyty newydd a gwaith cysylltiedig.

- Mae'r Rhaglen TGC a'i seilwaith ategol yn canolbwyntio ar leoedd, cymunedau a deilliannau, yn hytrach na ffiniau sefydliadol, sy'n hwyluso trefniadau gweithio mewn partneriaeth.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio gyda chanolfannau canser anllawfeddygol eraill yng Nghymru i adnabod arfer gorau, gwella deilliannau ar gyfer cleifion ac maent yn mynd ati ar y cyd i geisio datblygu dull cyffredin o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
- Trwy ddwyn gwelliannau mewn gwasanaethau oncoleg mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod sut y gallai oleuo a llywio arfer gorau ar draws GIG Cymru.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod cyfleoedd i rannu prosesau gyda BIP Aneurin Bevan i gaffael a chomisiynu offer ar gyfer ysbyty newydd CGF a'r is-ganolfan radiotherapi newydd i gyflawni darbodion maint ym maes caffael.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau gwaith gyda phartneriaid ym maes gofal sylfaenol i ddatblygu sesiynau addysg a briffio mewn perthynas ag oncoleg.

40 Cyfle ar gyfer gweithredu:

- **Gwell cydweithio gyda gofal sylfaenol** – Mae rhai cleifion sy'n gadael gofal CGF wedi mynegi'r dyhead i gael cymorth parhaus yn eu cymunedau lleol. Gallai'r Ymddiriedolaeth archwilio cyfleoedd i ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, i'w helpu i roi cymorth a chyngor i gleifion ar ôl triniaeth gan CGF.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys ystod o randdeiliaid yn y broses o ddylunio a datblygu'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol, ond dylai sicrhau y darperir adborth rheolaidd ar y cynnydd

41 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

42 Cryfderau:

- Wrth ddylunio'r Rhaglen TGC a'r seilwaith ategol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys cleifion, eu teuluoedd a gofalwyr, staff, byrddau iechyd, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Mae'r ymgysylltu hwn wedi helpu'r

Ymddiriedolaeth i ddeall anghenion a gwerthoedd rhanddeiliaid i oleuo dyluniad y rhaglen.

- Sefydlwyd y Rhaglen Arweinyddiaeth Cleifion yn CGF yn ystod 2018, ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan ar gyfer Arweinyddiaeth Cleifion, i roi llais i gleifion. Mae'r rhaglen yn annog cleifion i ddefnyddio sgiliau hunanreoli, yn hybu eu hyder ac yn hwyluso cymorth rhwng cymheiriaid. Mae'n chwarae rhan ar bob cam i ennyn ymgysylltiad cleifion a dinasyddion i roi cymorth i ddylunio'r Rhaglen TGC.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio gwybodaeth am brofiad cleifion a gasglwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon i ddylanwadu ar ddyluniad a datblygiad model gwasanaethau clinigol a model seilwaith ategol y Rhaglen TGC.
- Yn ystod digwyddiadau ymgysylltu mae rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth briodol i helpu i'w hysbysu ynghylch yr amryw opsiynau sydd ar gael.
- Fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Fwrdd Ymgynghori Clinigol sy'n cynnwys arbenigedd priodol o bob rhan o'r DU i ddarparu her yn ystod y broses o ddylunio a datblygu model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned a Chomisiwn Dylunio Cymru i ddarparu her yn ystod y broses o ddatblygu model gwasanaethau clinigol a seilwaith ategol y Rhaglen TGC.

43 Cyfle ar gyfer gweithredu:

- **Cyfathrebu** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai fod wedi rhoi adborth mwy rheolaidd i'r bobl a'r grwpiau yr oedd yn ymgysylltu â hwy, yn enwedig i gadarnhau pan nad oedd unrhyw beth newydd i'w nodi ers cyfathrebiadau blaenorol. Wrth edrych tua'r dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gyfer yr holl randdeiliaid.
- **Cynnwys yn y gymuned leol** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai cymunedau lleol chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio ysbyty newydd CGF fel ased cymunedol. Ar adeg briodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol a allai ddefnyddio'r cyfleuster i bennu'r ffyrdd gorau o ddefnyddio ysbyty CGF er budd cleifion, staff a'r gymuned leol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau sy'n helpu i wella llesiant.

# Atodiad 1

## Y Cam

### Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth: Dyluniad model gwasanaethau clinigol y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a'r seilwaith ategol

#### Pam fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud hyn?

44 Ar hyn o bryd, mae CGF yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 1.6 miliwn o bobl ledled De Ddwyrain Cymru, gan ddarparu gwasanaethau yn ysbyty CGF yng Nghaerdydd, safleoedd eraill niferus yn ei dalgylch ac yng nghartrefi cleifion. Codwyd ysbyty presennol CGF ym 1956 a, thros amser, mae wedi cael ei estyn i gynyddu capasiti. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod gan yr ysbyty presennol nifer o ddiffygion ac nad yw'n addas i'w ddiben mwyach. Mae'r diffygion hyn fel a ganlyn:

- mae'r amgylchedd cleifion yn is-optimaidd ac nid yw'n hybu adferiad a llesiant cleifion;
- nid oes digon o leoedd parcio;
- nid yw cyfran uchel o'r adeiladau'n cydymffurfio â gofynion statudol ac mae'n creu heriau o ran cynnal y lefelau diogelwch cleifion sy'n ofynnol; ac
- nid oes lle i ehangu, sy'n cyfyngu ar y cynnydd potensial mewn capasiti mewn ymateb i alw cynyddol am wasanaethau clinigol.

45 Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn cynyddu bob blwyddyn. Yn y DU, bydd un ym mhob dau o bobl a anwyd ar ôl 1960 yn cael eu diagnosio â rhyw fath o ganser yn ystod eu hoes[3]. Yng Nghymru, mae dros 19,000 o bobl yn cael eu diagnosio â chanser bob blwyddyn, a disgwylir i hyn barhau i dyfu 2% y flwyddyn tan 2030 pan ddisgwylir y bydd 250,000 o bobl sy'n byw yng Nghymru wedi cael diagnosis o ganser[4]. Y rheswm dros y cynnydd hwn yn y galw yw bod pobl yn byw yn hwy ac yn fwy agored i ffactorau risg. Wrth i nifer yr achosion o ganser gynyddu, bydd nifer yr atgyfeiriadau at CGF yn cynyddu hefyd.

46 Mae ymchwil glinigol yn arwain at ddatblygu triniaethau newydd sy'n darparu deilliannau gwell ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, mae nifer o'r triniaethau newydd yn fwy cymhleth, ac felly gall fod angen mwy o amser staff i roi triniaethau. Felly, yn ychwanegol at y cynnydd a ragwelir yn nifer y cleifion a atgyfeirir at CGF, mae'r amser am bob claf yn cynyddu hefyd. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth, ar y cyd â chleifion a theuluoedd, dinasyddion byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill,

[3] Ahmad A.S., Ormiston-Smith N. a Sasieni P.D. (2015). Trends in the lifetime risk of developing cancer in Great Britain: comparison of risk for those born from 1930 to 1960. British Journal of Cancer.

[4] Macmillan (2015) Ffeithlen ystadegau.

ddatblygu model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau canser yn Ne Ddwyrain Cymru. Nod y model gwasanaethau clinigol yw ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol, gwella cyfraddau goroesi ac ansawdd bywyd cleifion presennol a blaenorol, a'r profiadau ar gyfer cleifion, teuluoedd gofalwyr a staff.

47 Mae model gwasanaethau clinigol y Rhaglen TGC yn amcanu at drin rhagor o gleifion gartref neu yn eu cymuned leol. Dim ond ar gyfer triniaethau arbenigol y bydd yn ofynnol i gleifion deithio i ysbyty newydd CGF. Mae'r model gwasanaethau clinigol wedi'i fwriadu i;

- fod yn ddi-dor, yn integredig ac yn gyson;
- lleihau anghydraddoldeb mynediad at wasanaethau;
- rhoi gofal mewn lle ac ar amser sy'n addas ar gyfer anghenion cleifion;
- cwrdd â disgwyliadau cleifion unigol;
- optimeiddio'r defnydd o dechnoleg;
- osgoi dyblygu, gofal sy'n amrywio, niwed a gwastraff; a
- darparu'r gwerth mwyaf posibl.

48 Dechreuodd y Rhaglen TGC yn 2014, ac mae'n cynnwys saith prosiect;

- adeiladu canolfan ganser newydd;
- gwaith galluogi i ddarparu mynediad a chyfleusterau ar gyfer safle'r ganolfan ganser newydd (cyn adeiladu);
- datgomisiynu'r ganolfan ganser bresennol;
- datblygu is-ganolfan radiotherapi newydd yn Ysbyty Nevill Hall;
- caffael offer clinigol a digidol;
- darparu rhagor o wasanaethau allgymorth; a
- thrawsnewid gwasanaethau clinigol.

49 Mae'r Rhaglen TGC yn golygu adeiladu ysbyty newydd ar gyfer CGF yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd, is-uned radiotherapi yn Ysbyty Nevill Hall (gyda BIP Aneurin Bevan) a chynyddu'r gofal a ddarperir yn y gymuned leol trwy ddatblygu canolfannau allgymorth canser.

50 Uchelgais yr Ymddiriedolaeth yw darparu ysbyty o safon fyd-eang a fydd yn rhoi gofal heb ei ail i gleifion canser ledled De Ddwyrain Cymru. Mae CGF yn amcanu at nid dim ond darparu ystod o wasanaethau canser craidd ar gyfer cleifion ond hefyd bod yn ganolbwynt rhyngwladol ar gyfer ymchwil, technoleg ac arloesi.

### Beth mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud i gyflawni'r cam hwn?

51 Wrth ddylunio model gwasanaethau clinigol newydd y Rhaglen TGC, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n helaeth â chleifion, eu teuluoedd a gofalwyr, staff, byrddau iechyd, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal ystod o ddigwyddiadau a gweithdai ymgysylltu i ddeall anghenion

rhanddeiliaid wrth gyflenwi a darparu gwasanaethau canser. Mae digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid wedi cynnwys:

- gweithdai dylunio;
- gweithdai seiliedig ar brofiadau;
- gweithdai ymgysylltu ynghylch iechyd;
- grwpiau ffocws gyda chleifion;
- gweithdai ar gyfer gweithlu CGF; a
- chyfarfodydd gyda chynghorau iechyd cymuned.

52 Nododd Llywodraeth Cymru fod disodli ysbyty presennol CGF yn un o'r ymrwymiadau allweddol yn ei 'Rhaglen Lywodraethu'. Bydd ysbyty newydd CGF yn cael ei ariannu â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat i gyflawni prosiectau seilwaith. Mae dwyn manteision cymunedol yn ystod a thrwy gydol gweithrediad prosiectau cyfalaf yn rhan annatod o gyflawni'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac yn gyson â'r egwyddor DC.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod nifer o gyfleoedd posibl ar gyfer gwireddu manteision cymunedol wrth ddylunio ysbyty newydd CGF, gan gynnwys:

- cynnwys y gymuned leol mewn agweddau ar ddyluniad ysbyty newydd CGF;
- annog grwpiau cymunedol, ysgolion, elusennau a sefydliadau eraill i helpu i ddylunio a chreu cyfleusterau a mannau awyr agored hyblyg yn ysbyty newydd CGF;
- ystyried a ellir trefnu bod lle ar gael i grwpiau cymunedol lleol ei ddefnyddio, er enghraifft grwpiau drama a chorau (gyda photensial i gleifion yn CGF wylio perfformiadau neu gyfranogi mewn gweithgareddau);
- cyflwyno rhaglen brentisiaeth yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol, gan gefnogi'r gweithlu lleol a datblygiad sgiliau;
- integreiddio cludiant cynaliadwy fel rhan o ddyluniad ysbyty newydd CGF, a rhoi anogaeth i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy; ac
- ystyried sut y bydd mabwysiadu dull 'banc amser' yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r rhaglen yn helpu i gyfrannu tuag at wella ymyriadau cymunedol mewn perthynas â gweithgareddau ehangach yr ysbyty. Gallai hyn olygu gwella rhaglenni addysg a gaiff eu rhedeg gan yr ysbyty mewn ysgolion, darparu amser sy'n galluogi staff i friffio prentisiaid newydd neu fyfyrwyr profiad gwaith, neu gyfrannu tuag at yr oriau a gymer i osod a chynnal mesurau i wella'r amgylchedd awyr agored yn yr ysbyty.

54 Cafodd y cais cynllunio amlinellol ar gyfer ysbyty newydd CGF ei gymeradwyo gan Gyngor Dinas Caerdydd ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dyluniad cyfeirio ar gyfer y cyfleuster newydd. Bydd y Rhaglen TGC hefyd yn golygu datgomisiynu ysbyty presennol CGF a sicrhau y gellir defnyddio'r safle at ddibenion eraill yn y dyfodol.

# Atodiad 2

## Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy'n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor DC. Nid ydym yn bwriadu i'r dangosyddion gael eu defnyddio fel 'rhestr wirio'. Rydym wedi'u defnyddio fel 'dangosyddion' i'n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r Egwyddor DC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 4: y pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r cyfleoedd ar gyfer gwella

Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ystyried ein canfyddiadau yn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 ac fe gytunodd ar nifer o gyfleoedd i wella o ran dyluniad y Rhaglen TGC a'i seilwaith tanategol. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u nodi mewn ymateb.

Arddangosyn 5: ymateb rheolwyr i gyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella | | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|---|
| **Trefniadau corfforaethol** | | |
| G1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy adolygu ei hamcanion llesiant presennol ac archwilio cyfleoedd i'w cysoni'n well ag amcanion strategol i gynyddu eu blaenoriaeth a'u ffocws i'r eithaf. | Bydd yr Ymddiriedolaeth, trwy ddatblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, yn adolygu ac yn diweddaru ei hamcanion llesiant i sicrhau gwell cysondeb rhyngddynt ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth a'r Ddeddf.<br>Dyddiad cwblhau: Gorffennaf 2020<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |
| G2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy ddisgrifio'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant a chyflwyno mecanwaith effeithiol i fonitro perfformiad ac adrodd ar gynnydd tuag at eu cyflawni. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn diweddaru ac yn cryfhau trefniadau adrodd ar berfformiad mewn perthynas â gweithgareddau cynaliadwyedd. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio dangosyddion perfformiad allweddol CAMPUS sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Ymddiriedolaeth. Bwriedir adrodd ar berfformiad yn erbyn pob un o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn trwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd.<br>Dyddiad cwblhau: Mai 2020<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|
| A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i wreiddio'r egwyddor DC o fewn ei threfniadau craidd trwy sicrhau ffocws gwell a pherchnogaeth well ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor DC ar lefelau is-gadrannol drwy'r sefydliad. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu ac yn gweithredu fframwaith cynllunio strategol diwygiedig a fydd yn cynorthwyo'r sefydliad i wreiddio egwyddorion DC o fewn ein trefniadau craidd. Er enghraifft, bydd rhaid i'r holl gynlluniau gwasanaethau ac achosion busnes ddangos eu bod wedi'u tanategu gan y saith nod a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.<br>Dyddiad cwblhau: Mai 2020<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |
| **Atal** | |
| G4 **Gwella deilliannau ar gyfer cleifion** – Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gallai gyfrannu'n fwy at hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac addysgu'r cleifion y mae'n eu gweld i helpu i atal canser rhag dychwelyd. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad strategol o'n cyfraniad at yr agenda ehangach o ran iechyd y cyhoedd.<br>Dyddiad cwblhau: Ionawr 2021<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |
| G5 **Addysgu'r boblogaeth a wasanaethir gan Ganolfan Ganser Felindre (CGF)** – Er nad yw'n swyddogaeth statudol, gallai'r Ymddiriedolaeth fod â rôl allweddol o ran addysgu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i helpu i atal canser (neu addysgu darparwyr iechyd eraill i wneud hynny). | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad strategol o'n cyfraniad at yr agenda ehangach o ran iechyd y cyhoedd.<br>Dyddiad cwblhau: Ionawr 2021<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |
| **Hirdymor** | |
| G6 **Capasiti i gyflawni** – Sefydliad bach yw'r Ymddiriedolaeth, ac felly mae cymhlethdod y rhaglen wedi rhoi pwysau ar gapasiti a gallu staff i gyflawni'r Rhaglen TGC. Dylai'r Ymddiriedolaeth fynd ati'n rheolaidd i adolygu cyfansoddiad tîm cyflawni'r Rhaglen TGC i sicrhau bod y cymysgedd o sgiliau a'r capasiti'n briodol. | Mae adnoddau penodol wedi'u neilltuo i bob un o'r prosiectau yn y Rhaglen TGC. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r gweithlu, a fydd yn cael eu arwain yn fewnol ac yn allanol, i sicrhau bod capasiti a gallu digonol ar gael o hyd i gefnogi'r Rhaglen TGC. Bydd y rhain yn cael eu disgrifio yn yr Achos Busnes diwygiedig ar gyfer y Rhaglen TGC.<br>Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2020<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|
| **Integreiddio** | |
| G7 **Manteision ehangach** – Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall y Rhaglen TGC barhau i adnabod a dwyn manteision ehangach wrth i'r rhaglen symud ymlaen i sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i sefydlu grŵp arweinwyr cydweithredol a fydd yn gyfrifol am gynyddu i'r eithaf ystod o fanteision sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen TGC.<br>Dyddiad cwblhau: Mawrth 2020<br>Swyddog cyfrifol: Carl James |
| **Cydweithio** | |
| G8 **Gwell cydweithio gyda gofal sylfaenol** – Mae rhai cleifion sy'n gadael gofal CGF wedi mynegi'r dyhead i gael cymorth parhaus yn eu cymunedau lleol. Gallai'r Ymddiriedolaeth archwilio cyfleoedd i ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, i'w helpu i roi cymorth a chyngor i gleifion ar ôl triniaeth gan CGF. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn integreiddio sesiynau addysg ar gyfer gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol fel rhan o'n rhaglen addysg feddygol.<br>Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio gyda gofal sylfaenol trwy ddarparu cyfleoedd i feddygon teulu wneud gwaith sesiynol yn CGF mewn clinig canser.<br>Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2020<br>Swyddog cyfrifol: Dr Jacinta Abraham |
| **Cynnwys** | |
| G9 **Cyfathrebu** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai fod wedi rhoi adborth mwy rheolaidd i'r bobl a'r grwpiau yr oedd yn ymgysylltu â hwy, yn enwedig i gadarnhau pan nad oedd unrhyw beth newydd i'w nodi ers cyfathrebiadau blaenorol. Wrth edrych tua'r dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gyfer yr holl randdeiliaid. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn diweddaru strategaeth gyfathrebu'r Rhaglen TGC ac yn rhoi'r strategaeth ar waith unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.<br>Dyddiad cwblhau: Ebrill 2020<br>Swyddog cyfrifol: Lauren Fear |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|
| G10 **Cynnwys yn y gymuned leol** – Roedd yr Ymddiriedolaeth o'r farn y gallai cymunedau lleol chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio ysbyty newydd CGF fel ased cymunedol. Ar adeg briodol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cynnwys grwpiau cymunedol lleol a allai ddefnyddio'r cyfleuster i bennu'r ffyrdd gorau o ddefnyddio ysbyty CGF er budd cleifion, staff a'r gymuned leol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau sy'n helpu i wella llesiant. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i gynnwys y gymuned leol, fel a nodir yng nghynllun cyfathrebu CGF, ar gerrig milltir allweddol yn y broses deialog gystadleuol. Y diben fydd ceisio adborth ar y cynigion dylunio sy'n cael eu hystyried a defnyddio'r adborth hwn i ddylanwadu ar ddyluniadau yn y dyfodol a'r gwerthusiad o'r cynigion dylunio terfynol.<br>Dyddiad cwblhau: Awst 2021<br>Swyddog cyfrifol: David Powell |

Byddwn yn monitro cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru